




Dyletswyddau Tai Newydd

Gwybodaeth i Ddarparwyr





Mae Datrysiadau Tai Conwy a'r Tîm Cefnogi Pobl wedi cynhyrchu'r daflen wybodaeth hon er mwyn egluro'r dyletswyddau tai newydd a wynebir gan yr Awdurdod Lleol a'i bartneriaid o fis Ebrill 2015. Mae hefyd yn edrych ar y terfynau amser mewn perthynas ag aros mewn llety Gwely a Brecwast.

Mae'r ddogfen hon hefyd yn trafod y prif newidiadau sydd wedi digwydd o ganlyniad i'r Ddeddf newydd.

Dylid ei ddsbarthu at sylw holl aelodau'r tîm.

1. Deddf Tai (Cymru) 2014 Rhan 2

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 Rhan 2 yn canolbwyntio ar atal digartrefedd a rhoi cymorth i gynnal tenantiaethau. Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn nodi newid mewn diwylliant i ddarparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y cwsmer trwy asesu anghenion unigol. Mae'n rhoi eglurhad o'r ddyletswydd ar bob gwasanaeth cyhoeddus i ddarparu ymagwedd gydlynol a chydgyssylltiedig tuag at atal digartrefedd.

Gall person wneud cais am gyngor a chymorth tai ar unrhyw adeg a bydd asesiad cychwynnol yn penderfynu a ydynt yn ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref o fewn y 56 diwrnod nesaf

Bydd y Gwasanaethau Tai yn ystyried y dyletswyddau canlynol:

- Dyletswydd i asesu eu hangen am dai - Os yw'r ymgeisydd yn gymwys ac yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod. Mae'r asesiad yn ystyried achos y digartrefedd, unrhyw anghenion cymorth a'r canlyniad sydd angen. Bydd yr asesiad hwn yn helpu'r Swyddog a'r ymgeisydd i ystyried a chytuno ar gamau rhesymol i atal digartrefedd
- Dyletswydd i atal digartrefedd - Drwy gymryd y camau rhesymol y cytunwyd arnynt ac adolygu'r cynllun tai'r cleientiaid
- Dyletswydd i helpu sicrhau llety - Os yw'r ymgeisydd yn ddigartref rŵan, neu nad yw'r gwaith i atal digartrefedd wedi llwyddo
- Dyletswydd i ddarparu llety dros dro - Ar gyfer y rhai hynny sy'n gymwys, yn ddigartref ac sydd ag angen blaenoriaeth am dai
- Dyletswydd i leddfu digartrefedd - Parhau i weithio i sicrhau llety arall am 56 diwrnod
- Dyletswydd i sicrhau llety - Y ddyletswydd derfynol ac absoliwt ar gyfer ymgeiswyr sy'n gymwys, yn ddigartref, sydd ag angen blaenoriaeth am dai ac yn ddigartref yn anfwriadol

2. Prif newidiadau yn Deddf Tai (Cymru) 2014 Rhan 2:

Digartrefedd

Mae'r diffiniad o ddigartrefedd yn parhau i fod yr un fath ag o dan y ddeddfwriaeth bresennol, ond mae ymgeisydd dan fygythiad o fod yn ddigartref os yw'n debygol y byddant yn dod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod, ac mae hyn wedi newid o 28 diwrnod.

Cyflwyno'r ddyletswydd i asesu, atal a lleddfu

Drwy i'r Swyddog a'r ymgeisydd gynnal asesiad cyfannol, cytuno a chyflawni camau rhesymol

Angen Blaenoriaeth

Gwnaed dau newid i'r grwpiau blaenoriaeth:

- Cyfeirir bellach at drais domestig a thrais fel cam-drin domestig a cham-drin.
- Diwygiad i eiriad yr angen blaenoriaeth ar gyfer cyn-garcharorion: "person sydd â chysylltiad lleol â'r ardal ac sy'n ddiameddiffyn o ganlyniad i fod yn y ddalfa." Mae'r ddyletswydd hon yn ymestyn i gyn-droseddwy'r sy'n ymgartrefu yn eu llety ar ôl cael eu rhyddhau ac yr ystyrir eu bod wedi colli'r llety o ganlyniad i wendid a achoswyd gan eu carchariad cychwynnol

Cysylltiad Lleol

Nid oes newid i'r diffiniad o gysylltiad lleol, ond nid yw'n ystyriaeth wrth gyflawni ddyletswyddau i asesu a'r ddyletswydd i atal digartrefedd

Cyflawni ddyletswydd ddigartrefedd

Dim ond i dai cymdeithasol y gellid cyflawni'r ddyletswydd digartref yn flaenorol. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014, Rhan 2, yn caniatáu rhyddhau i lety addas yn y sector rhentu preifat.

3. Gwaith partneriaeth

- 3.1 Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 Rhan 2, yn cadarnhau'r ddyletswydd ar wasanaethau statudol ac anstatudol i gydweithio a chynorthwyo'r Awdurdod Lleol i atal digartrefedd. Mae Datrysiadau Tai Conwy yn mabwysiadu ymagwedd agored ac yn cydnabod y bydd ystod eang o sefydliadau sy'n gweithredu mewn meysydd ar wahân i dai, gan gynnwys, er enghraifft, iechyd, addysg a chyflogaeth, y gallai eu gweithgareddau helpu i atal digartrefedd.
- 3.2 Mae cydweithredu rhwng Awdurdodau Lleol a'u partneriaid yn thema greiddiol yn Neddf Tai (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf yn cryfhau'r ddyletswydd ar gyffwrdd cyhoeddus penodol i gydweithredu. Yn ogystal â'r newid penodol hwn, seilir y fframwaith statudol newydd ar waith ar y cyd datblygedig iawn rhwng Awdurdodau Lleol a'u partneriaid i gyflawni ei amcanion ar ymyrraeth gynnar a chymorth i ddod o hyd i'r ateb gorau sydd ar gael cyn gynted ag y bo modd.
- 3.3 Mae'r dull partneriaeth hwn yn gofyn am gydweithio ar y cyd, o fewn fframwaith cynllunio lleol dan arweiniad Awdurdodau Lleol.
- 3.3 Mae'r adran 95 newydd yn cryfhau'r ddyletswydd i gydweithredu o dan Ddeddf Tai 1996 yn sylweddol, ac yn cwmpasu swyddogaethau strategol a gweithredol. Gosodir y rhagdybiaeth yn glir bellach ar y gwasanaeth perthnasol i gydweithio oni bai y gellir dangos y byddai'r camau arfaethedig yn anghydnaws â'i ddyletswyddau. Byddai'n rhaid rhoi eu rhesymau yn ysgrifenedig ac ni fyddai'n ddigon i ddweud fod blaenoriaethau eraill yn cael eu blaenoriaethu.
- 3.4 Mae hyn yn golygu mai'r sefyllfa ddiodyn yw y bydd y sefydliad partner yn cydweithio i fodloni cais am gymorth. Bydd disgwyl fod gan Awdurdodau Lleol a phartneriaid

fecanweithiau sefydledig i sicrhau cydweithio a mynd i'r afael ag unrhyw feysydd o anhawster cyn bod angen dod â'r ddeddfwriaeth i rym.

4 Gweithio gyda Darparwyr Cefnogi Pobl

- 4.1 Bydd angen i awdurdodau ystyried y ffordd orau o gynnal perthynas gref rhwng swyddogaethau digartrefedd strategol a thasgau cynllunio gweithredol y timau Cefnogi Pobl leol. Mae disgwyl i Awdurdodau Lleol ganolbwyntio gwasanaethau Cefnogi Pobl ar yr amcan o atal digartrefedd, a dylai'r gwaith o fonitro effaith y gwasanaethau hyn fod yn gysylltiedig â monitro atal digartrefedd. Fel y nodwyd uchod, dylai Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol adlewyrchu'r ffocws hwn yn eu gwaith, a blaenoriaethu adnoddau yn unol â hynny.
- 4.2 Mae Pwyllgorau Cydweithredu Rhanbarthol yn cynnwys ystod o ddarparwyr gwasanaeth a chomisiynwyr sy'n gweithio gyda phobl sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn gyfrifol am gynghori comisiynwyr cefnogaeth ar batrwm gwasanaethau ataliol yn yr ardaloedd lleol a rhanbarthol a, gan hynny, maent yn fforwm y bydd angen ymgynghori â hwy a'u hysbysu gan eu strategaeth ddigartrefedd leol.

5 Adolygiadau

- 5.1 Mae gan Datrysiadau Tai nifer o hysbysiadau ac ar bob cam mae angen i ni ail-asesu, sy'n golygu bwrw ymlaen ag unrhyw gamau gweithredu ar gyfer y Swyddog a'r cleient ac ail-asesu amgylchiadau'r cleientiaid.
- 5.2 Pwysleisiodd Llywodraeth Cymru'r angen i gynnal asesiadau rheolaidd a chadarnhawyd mai'r Swyddog Datrysiadau Tai sy'n gyfrifol am sicrhau bod unrhyw atgyfeiriadau'n cael eu gweithredu. Nodwyd yn glir nad yw atgyfeirio i wasanaeth yn ddigon a bod yn rhaid mynd ar drywydd hyn. Mae'r adolygiad hwn yw nodi unrhyw newidiadau a allai arwain at ddiwygio'r asesiad adran 62 gwreiddiol neu gyflawni dyletswydd os yw'n berthnasol.
- 5.3 Yr angen i symud y rhai sydd mewn Gwely a Brecwast yn gyflym ac ar ôl hynny y nifer o negeseuon e-bost a galwadau i fynd ar drywydd nifer o bethau:
- Gofyniad i gyfyngu'r amser mewn Gwely a Brecwast; i'r rhai sydd â phlant i 2 wythnos a'r rhai heb blant i 6 wythnos.
 - Cost llety brys i'r Awdurdod, fel llety gwely a brecwast
- 5.4 **Terfynau Amser i'w hystyried:**
- Hyd at ac nid yn hirach na 2 wythnos mewn llety gwely a brecwast i deuluoedd
 - Hyd at ac nid yn hirach na 6 wythnos mewn llety gwely a brecwast i bobl sengl
 - Adran 60 i adran 62 = 10 diwrnod
 - Adran 66 i adran 73 = 56 diwrnod
 - Adran 73 i adran 75 = 56 diwrnod

5.5 Canllawiau'r Cod perthnasol yw:

Parhau i adolygu'r asesiad adran 62

Gall y dyletswyddau i ymgeiswyr sy'n ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 newid wrth i'w hamgylchiadau newid gweler adran 62(9). Am y rheswm hwn, mae'n rhaid parhau i adolygu asesiad yr ymgeisydd.

Ar gyfer rhai ymgeiswyr bydd o leiaf asesiad dau gam os nad yw'r camau a gymerwyd o dan adran 73 yn lleddfu'r digartrefedd. Yn gyntaf, bydd asesiad yn cael ei wneud i weld a oes dyletswydd o dan adran 73 i helpu diogelu llety ac os caiff y ddyletswydd hon ei chwblhau o dan y rhesymau a nodir yn adran 74(2) ac adran 74(3) bydd angen cynnal adolygiad o'r asesiad i benderfynu a oes dyletswydd dan adran 75 i sicrhau llety.

Os bydd ymgeiswyr wedi cael eu hasesu i weld a oes dyletswydd o dan adran 66 i helpu atal digartrefedd a bod camau aflwyddiannus wedi eu cymryd i atal digartrefedd, os byddant yna'n dod yn ddigartref, bydd angen adolygu eu hasesiad er mwyn hysbysu ynglŷn â pha gamau rhesymol pellach y gellir eu cymryd o dan y ddyletswydd adran 73 er mwyn helpu diogelu llety.

Os bydd ymgeisydd yn gofyn am lety dros dro tra bod dyletswydd adran 73 iddynt i helpu diogelu llety, bydd angen adolygu'r asesiad er mwyn penderfynu a oes ganddynt reswm i gredu bod angen blaenoriaeth ar yr ymgeisydd, a bod felly ganddo hawl iddo.

Mae'n bwysig nodi na ellir asesu ymgeisydd ar y cyswllt cyntaf am y ddyletswydd dan adran 75 i sicrhau llety, gan y bydd bob amser angen iddynt gael eu hasesu ar gyfer y ddyletswydd dan adran 73 i helpu sicrhau llety diogel yn gyntaf ac mewn rhai achosion bydd rhaid cynnal asesiad ar gyfer y ddyletswydd dan adran 66 i helpu atal digartrefedd.

Bydd y broses asesu a'r ffurflen a ddefnyddir (papur neu electronig) yn allweddol i sicrhau nad yw swyddogion yn ailadrodd asesiadau ond yn gallu manteisio ar y wybodaeth a phenderfyniadau a wnaed eisoes. Mae'n hanfodol bod gan yr Awdurdod broses glir ar waith i'w swyddogion ei dilyn a ffurflen asesu gynhwysfawr sy'n caniatáu cofnodi gwybodaeth a gasglwyd a phenderfyniadau a wnaed, bod y cynlluniau'n cael eu hamlinellu'n glir a bod yr asesiad yn cael ei adolygu ar y cyfnodau allweddol. “